# Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr: Arolwg Twristiaeth Dros Nos Cymru


## Adroddiad Blynyddol 2022




Rhif Ymchwil Gymdeithasol:  40/2024
ISBN Digidol: 978-1-83625-131-6

# Aeth trigolion Prydain Fawr ar 1.2 biliwn o deithiau dydd a dros nos ym Mhrydain Fawr yn 2022. £77.9 biliwn oedd y gwariant ar bob taith ddomestig ym Mhrydain Fawr yn 2022.


## Teithiau Dros Nos 2022





## Gwariant Dros Nos 2022





## Ymweliadau Dydd a Theithiau Dros Nos 2022





## Ymweliadau Dydd Twristiaeth 2022




## Gwariant Ymweliadau Dydd 2022




## Gwariant Dydd a Gwariant Dros Nos 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr (GBTS) 2022 ac Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr(GBDVS) 2022

# Cynnwys

**Cyflwyniad, Dull, Diffiniadau a Chyd-destun**

**Crynodeb 2021 i 2022**

- Prif ganlyniadau Prydain Fawr 2022
- Teithiau dros nos, gwariant a nosweithiau fesul chwarter Prydain Fawr 2021 i 2022
- Teithiau dros nos Prydain Fawr fesul gwlad breswylio yn erbyn gwlad gyrchfan 2022
- Gwariant cyfartalog fesul taith, nosweithiau cyfartalog fesul taith a gwariant cyfartalog fesul noson Prydain Fawr 2021 i 2022

**Teithiau dros nos domestig i Gymru 2021 a 2022**

- Teithiau dros nos, gwariant cyfartalog a hyd fesul diben y daith 2021 i 2022
- Teithiau dros nos a gwariant fesul math o leoliad y prif le yr ymwelwyd ag ef 2021 i 2022
- Teithiau dros nos a gwariant fesul gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt 2022
- Dadansoddiad o wariant taith
- Teithiau, gwariant a nosweithiau fesul rhanbarth preswylio a rhanbarth cyrchfan

**Proffil ymweliadau Cymru 2022**

- Amser arwain a dull trefnu teithiau dros nos, trafnidiaeth a ddefnyddiwyd a llety a ddefnyddiwyd
- Cyfnod oes a phroffil oedran
- Maint a chyfansoddiad parti'r daith
- Teithiau fesul rhanbarth cartref a rhanbarth ymweliad 2022

**Atodiad**

- Tablau Blynyddol Ystadegau Dros Nos Prydain Fawr a Chymru 2021 a 2022
- Teithiau Prydain Fawr, gwariant cyfartalog fesul taith a hyd yn ôl diben y daith

# Cyflwyniad

- Arolwg defnyddwyr cenedlaethol yw Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS). Mae'n mesur niferoedd a gwerth twristiaeth dros nos domestig gan drigolion Prydain Fawr. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ystadegau twristiaeth domestig ar gyfer Ionawr i Ragfyr 2022 ar gyfer Cymru. Drwy'r adroddiad cyfan, defnyddir yr ystadegau twristiaeth ar gyfer 2021 i amlygu tueddiadau o ran teithiau, gwariant a nosweithiau gwely. Sylwer bod data 2021 (Ebrill i Ragfyr) yn ddata diwygiedig. Cyhoeddir canlyniadau manwl ar gyfer Lloegr a'r Alban gan VisitEngland a VisitScotland yn eu trefn.

- Mae'r ystadegau o 2021 ymlaen yn seiliedig ar arolwg ar-lein cyfunol newydd. Mae hwn yn disodli'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) ar wahân ac Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS), a gynhaliwyd tan ddiwedd 2019. Mae dull ac adroddiadau ansawdd ar gael ar wefan Croeso Cymru. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ddiffyg cymharedd â data hyd at 2019.

- Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am nodweddion teithiau ac ymwelwyr, â chymariaethau pan fo'n briodol, ac yn cynnwys pob diben twristiaeth, fel gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau a theithiau ar gyfer busnes a dibenion eraill. Mae adroddiadau tri misol a data manwl ar dwristiaeth dros nos domestig ar gael ar ffurf Excel ar wefan Croeso Cymru.

- Mae'r canlyniadau ar gyfer 2021 a 2022 yn adrodd ar wahanol gyfnodau o gasglu data, ar gyfer 2021 Ebrill i Ragfyr yw'r cyfnod ac ar gyfer 2022, Ionawr i Ragfyr yw'r cyfnod. Mae hyn oherwydd pandemig COVID-19 pan nad oedd yn bosibl teithio yn ystod 3 mis cyntaf 2021 oherwydd cyfyngiadau symud pan na chaniatawyd teithiau hamdden dros nos. Mae'r canlyniadau yn gymaradwy ar draws gwledydd (Lloegr, yr Alban a Chymru).

- Noddir yr arolwg ar y cyd gan VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru. Cynhelir yr arolwg ar hyn o bryd gan yr asiantaeth ymchwil annibynnol, BMG. Ynghyd ag Arolwg Ymwelwyr Dydd Prydain Fawr (GBDVS), sydd ar gael fel adroddiad ar wahân, yr arolygon hyn yw'r arolygon mwyaf a mwyaf cynhwysfawr o deithio domestig Prydain Fawr.

Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint ac unrhyw hawliau eraill yn yr holl ddeunydd yn yr adroddiad hwn yn eiddo i Croeso Cymru

# Methodoleg (1/2)

- 60,000 o ymatebwyr yw'r maint sampl blynyddol ar gyfer GBTS. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys ymatebwyr nad ydynt wedi bod ar unrhyw deithiau cymwys. Mae'r samplau blynyddol wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws 52 wythnos y flwyddyn.
- Ers 2020, mae GBTS wedi bod yn defnyddio dull panel cymysg ar-lein, sy'n newid sylweddol o'r dull wyneb yn wyneb cyn 2020. Caiff ymatebwyr eu canfod trwy blatfform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr paneli ag achrediad ESOMAR.
- Cesglir data ar nifer y teithiau dros nos yr aethpwyd arnynt gan oedolion 16 oed a hŷn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r arolwg hefyd yn casglu manylion unrhyw blant sy'n rhan o deithiau dros nos, a chaiff y rhain eu cynnwys yn y ffigurau ar ffurf gros amcangyfrifedig ar gyfer teithiau, gwariant a nifer nosweithiau.
- Gwnaed nifer o newidiadau i'r holiadur yn 2022, a graddnodwyd y data cyn 2022 i gymryd y newidiadau hyn i ystyriaeth.
- Casglwyd data ar gyfer 9 mis yn 2021 (Ebrill i Ragfyr) yn erbyn 12 mis yn 2022 (Ionawr i Ragfyr). Mae hyn oherwydd pandemig COVID-19 pan roedd teithio wedi'i gyfyngu. Er nad yw data blynyddol 2021 a 2022 yn gymaradwy yn uniongyrchol oherwydd y gwahanol gyfnodau amser teithio, darperir sylwadau ar wahaniaethau perthnasol rhwng Ebrill i Ragfyr 2021 ac Ebrill i Ragfyr 2022 drwy'r adroddiad cyfan hwn.
- Cyhoeddwyd data 2021 a 2022 y GBTS fel ystadegau sy'n cael eu datblygu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.
- Mae'r amcangyfrifon misol yn destun cyfyngiadau ar faint sampl a newidiadau tymhorol o ran teithiau a gyflawnir ar draws y flwyddyn.

BMG success decoded

# Methodoleg (2/2)

- Defnyddiwyd cwotâu pleth pan fo'n ymarferol. Ym mhob gwlad, caiff cwotâu eu pennu yn ôl oedran a rhywedd (plethu), gradd gymdeithasol fras a rhanbarthau Cymru. Caiff y data eu pwysoli i adlewyrchu'r boblogaeth yn fwy cywir.
- Meintiau sylfaen yw nifer y teithiau cymwys, yn hytrach na nifer yr ymatebwyr. Defnyddir targedau tri misol ar gyfer Cymru a'r Alban oherwydd meintiau sylfaen misol bach.
- Nifer y teithiau ar gyfer amcangyfrifon 2022 yn seiliedig ar:


| Gwlad | Meintiau Sylfaen Heb eu Pwysoli 2022 |
|---|---|
| **Prydain Fawr** | 10,161 |
| **Lloegr** | 7,885 |
| **Yr Alban** | 1,537 |
| **Cymru** | 993 |

- Tynnir sylw at feintiau sylfaen bach drwy'r adroddiad cyfan. Ar gyfer maint sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir y dylid defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Mae ystadegau â meintiau sylfaen o dan 30 wedi cael eu heithrio mewn llawer o achosion gan na argymhellir defnyddio'r rhain. Mewn rhai achosion, mae maint cyffredinol y sylfaen yn uwch na 30 (teithiau busnes), ond mae'r is-gategori tri misol neu arall o dan 30 ac felly wedi'i eithrio.
- Mae gwybodaeth fwy manwl am newidiadau dull, cwotâu a phwysoli ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd Cefndirol sydd ar gael ar wefan Croeso Cymru.

BMG success decoded

# Diffiniadau

## Taith Dros Nos Ddomestig Prydain Fawr



I fod yn Daith Dros Nos Ddomestig Prydain Fawr gymwys, mae'n rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Wedi cynnwys arhosiad o un noson o leiaf mewn un neu fwy o wledydd Prydain Fawr
- Ni chyflawnir y daith yn rheolaidd – mae'n digwydd yn llai aml nag unwaith yr wythnos

**Mesurau Allweddol**

- **Teithiau** – Amcangyfrif o'r hyn y byddai nifer gros y teithiau dros nos yr aethpwyd arnynt gan y boblogaeth, o fewn y cyfnod amser a pharamedrau eraill a nodwyd, os yw'r sampl cwota yn gynrychiadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.
- **Gwariant** – Amcangyfrif o'r hyn y byddai cyfanswm y gwariant yn ymwneud â nifer yr ymweliadau dros nos a gyflawnwyd gan boblogaeth Prydain Fawr, o fewn y cyfnod amser a pharamedrau eraill a nodwyd, os yw'r sampl cwota yn gynrychiadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.
- **Nosweithiau** – Amcangyfrif o'r hyn y byddai nifer gros y nosweithiau a dreuliwyd ar deithiau dros a gyflawnwyd gan y boblogaeth, o fewn y cyfnod amser a pharamedrau eraill a nodwyd, os yw'r sampl cwota yn gynrychiadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr

## Diben y Daith



- **Cyfanswm y teithiau.** Mae hyn yn cynnwys amcangyfrifon o deithiau, nosweithiau a gwariant ar bob math o daith dros nos at bob diben cymwys.
- **Teithiau gwyliau.** Gwyliau, pleser neu hamdden oedd prif ddiben y daith.
- Ymweld â ffrindiau neu berthnasau (VFR). Ymweld â ffrindiau a pherthnasau oedd prif ddiben y daith.
- **Teithiau busnes** – Busnes oedd prif ddiben y daith.
- **Teithiau amrywiol** – Roedd prif ddiben y daith ar gyfer math arall o daith yr aethpwyd arni nad yw wedi'i chwmpasu gan y dosbarthiadau uchod gan gynnwys digwyddiadau personol, digwyddiadau cyhoeddus, neu at ddibenion astudio, meddygol, crefyddol neu unrhyw arhosiad dros nos yn y DU yn rhan o daith dramor.

Sylwer: Mae'r holl ffigurau gwariant mewn termau nominal, heb eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Er ein bod yn gweld cynnydd i wariant, achosir hyn i raddau helaeth gan y cyfraddau chwyddiant uchel.

# Cyd-destun

- **Costau byw:** Dechreuodd chwyddiant y DU, fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), gynyddu ddiwedd gwanwyn 2021 a chynyddodd yn weddol gyson trwy weddill 2021 a 2022, gan gyrraedd brig o 11.1% ym mis Tachwedd 2022. 9.2% oedd y gyfradd chwyddiant gyfartalog yn y DU ar gyfer 2022 yn seiliedig ar CPI. Cafodd hyn effaith ar hyd teithiau domestig, pan wnaeth trigolion Prydain leihau hyd eu teithiau dros nos i fantoli costau uwch.
- **Teithio rhyngwladol:** gan drigolion Prydain Fawr dechreuodd wella erbyn mis Ebrill 2022, â 71.0 miliwn o deithiau dramor yn 2022, yn ôl yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Wrth i deithio allan ddechrau gwella yn 2022, disodlwyd rhywfaint o deithio domestig gan deithio dramor.
- **Gweithredu diwydiannol:** Canfu gwaith ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol y tarfwyd ar gynlluniau teithio bron i 1 o bob 5 o bobl yn ystod Rhagfyr 2022 oherwydd streiciau yn y sector trafnidiaeth. Dywedodd bron i hanner y rhai yr effeithiwyd arnynt nad oeddent yn gallu mynd i weithgareddau hamdden.
- **Tywydd:** Ar y cyfan, 2022 oedd y flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd erioed yn y DU a hefyd un o'r mwyaf heulog. Cofnodwyd tymheredd uchaf erioed yn y DU o 40.3˚C ym mis Gorffennaf, ond Mehefin ac Awst oedd yn arbennig o heulog.
- **COVID-19:** Diddymwyd cyfyngiadau symud llawn ddiwedd mis Mawrth 2021, ac fe'u disodlwyd gan fap ffordd allan o gyfyngiadau symud hyd at fis Gorffennaf 21. Fodd bynnag, ni ddiddymwyd y cyfyngiadau terfynol ar deithio rhyngwladol tan fis Chwefror 2022. O 11 Chwefror 2022, nid oedd angen i deithwyr a oedd wedi'u brechu'n llawn gymryd unrhyw brofion mwyach, ond roedd angen iddynt gwblhau ffurflen lleoli teithwyr o hyd. Nid oedd yn rhaid i deithwyr heb eu brechu hunanynysu ar unwaith ar ôl cyrraedd mwyach, a chymryd profion Diwrnod 2 a Diwrnod 8. O 11 Chwefror, diddymwyd y gofyniad i hunanynysu ar unwaith a'r prawf Diwrnod 8, a daeth y cynllun 'Profi i Ryddhau' i ben hefyd.

# Crynodeb




# Crynodeb o'r canfyddiadau

- Roedd 125.7 miliwn o deithiau i Brydain Fawr yn 2022. Mae hyn yn gynnydd o 16%, o gymharu Ebrill i Ragfyr 2021 ag Ebrill i Ragfyr 2022.
- Roedd 8.71 miliwn o deithiau i Gymru yn 2022, yr oedd y mwyafrif ohonynt i ymweld â ffrindiau a pherthnasau neu ar wyliau. Roedd cynnydd i deithiau amrywiol drwy gydol 2022 wrth i fwy o bobl deithio'n rhyngwladol (mae teithiau amrywiol yn cynnwys teithiau domestig yn rhan o daith dramor).
- Roedd cynnydd o 13% yn nifer y teithiau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022, gyda 7.02 miliwn o deithiau wedi'u cymryd yng Nghymru, o gymharu â 6.21 miliwn yn ystod yr un cyfnod yn 2021.
- Roedd effeithiau chwyddiant yn eglur, wrth i wariant cyfartalog fesul taith dros nos ddomestig i Brydain Fawr gynyddu o £230 yn 2021, i £268 yn 2022.
- Gostyngodd y nifer gyfartalog o nosweithiau a dreuliwyd ar daith ym Mhrydain Fawr i 3.1 yn 2022, mewn cyferbyniad â gwledydd eraill, effeithiwyd ar deithiau gwyliau i Gymru hefyd gan y tueddiad hwn tuag at deithiau byrrach, â gostyngiad o 9 pwynt canran ar gyfer teithiau gwyliau yn para 4 noson neu fwy. Canfu adroddiadau sentiment y byddai rhai o drigolion Prydain Fawr yn lleihau hyd eu teithiau domestig oherwydd costau byw cynyddol. Mae hefyd yn bosibl bod hyd byrrach teithiau oherwydd dychweliad teithio rhyngwladol.
- Er mai De-ddwyrain Cymru oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru, dyma hefyd lle'r oedd y gwariant cyfartalog isaf (£194) a hyd cyfartalog byrraf (2.4) teithiau. Mae Gogledd Cymru yn cynrychioli 3 o bob 10 taith i Gymru ond dyma lle'r oedd y gwariant cyfartalog uchaf (£247) a'r hyd cyfartalog hiraf (3.8). Trigolion Lloegr sy'n mynd ar y mwyafrif o deithiau i Gymru, gan aros yn hirach na thrigolion Cymru a gwario mwy.
- Arhosodd teithiau i bob math o leoliad fwy neu lai'n sefydlog rhwng 2021 a 2022, ond daeth dinasoedd a threfi mawr yn fwy poblogaidd ar gyfer teithiau i weld ffrindiau a pherthnasau (+8 pwynt canran) a daeth teithiau i gefn gwlad/pentref yn fwy cyffredin ar gyfer gwyliau (+8 pwynt canran) yn 2022.
- Cynyddodd gwariant ar draws yr holl brif gategorïau yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o'i gymharu â 2021. Gallai costau gwyliau parod (+48%), bwyta ac yfed allan (+43%), llety (+34%) a theithio (+23%) i gyd fod wedi cael eu heffeithio gan chwyddiant.
- Trefnwyd teithiau gwyliau i Gymru yn 2022 ymhell ymlaen llaw, ag o leiaf hanner yn cael eu trefnu ddau neu fwy o fisoedd cyn y daith. Mae hyn yn gynnydd o 13 pwynt canran o 2021. O edrych ar bob math o daith i Gymru yn 2022, roedd dau fis neu fwy ymlaen llaw fwyaf tebygol yn Ch4. Gallai hyn fod oherwydd y cynnydd i wyliau parod yn ystod y cyfnod hwn.
- Aros mewn gwesty oedd y math mwyaf cyffredin o lety a ddefnyddiau ar deithiau dros nos yng Nghymru, ac yna carafán/gwersylla/glampio, sy'n llawer mwy poblogaidd yng Nghymru na gwledydd eraill. Roedd y math o lety a ddefnyddiwyd yn amrywio yn ôl diben y daith, ac arhosodd 4 o bob 10 taith wyliau mewn carafán/gwersylla/glampio yn 2022. Caiff dewis o lety hefyd ei benderfynu gan gyfnod oes, ac mae gan gyn-nythwyr ffafriaeth gryfach at lety â gwasanaeth.


Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr (GBTS) 2022

# Cipolwg ar ystadegau twristiaeth dros nos 2022 Prydain Fawr


## Cyfanswm Teithiau a Gyflawnwyd 2022 (miliynau)




## Cyfanswm Gwariant 2022 (miliynau)




## Cyfanswm Nosweithiau Gwely 2022 (miliynau)




| Gwlad | Gwariant Cyfartalog fesul Taith 2022 |
|---|---|
| Prydain Fawr | £262 |
| Lloegr | £258 |
| Yr Alban | £253 |
| Cymru | £220 |

| Gwlad | Gwariant Cyfartalog fesul Noson 2022 |
|---|---|
| Prydain Fawr | £86 |
| Lloegr | £87 |
| Yr Alban | £83 |
| Cymru | £74 |


| Gwlad | Nosweithiau Cyfartalog fesul Taith 2022 |
|---|---|
| Prydain Fawr | 3.0 |
| Lloegr | 3.0 |
| Yr Alban | 3.0 |
| Cymru | 3.0 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Teithiau dros nos domestig fesul mis yn 2022

Cafwyd twristiaeth frig ym Mhrydain Fawr ym mis Rhagfyr 2022. Gwnaed 13.3 miliwn o deithiau ac ysgogwyd hyn yn bennaf gan deithiau i ymweld â ffrindiau a theulu a mynd i ddathliadau dros gyfnod y Nadolig. Gallai brig mwyaf anarferol ym mis Mawrth 2022 gael ei esbonio gan ddiddymu'r cyfyngiadau COVID-19 olaf ddiwedd mis Chwefror 2022, yn rhan o'r cynllun 'Byw gyda Covid'.

**Cyfanswm y teithiau (miliynau)**





| Gwlad | Nifer y teithiau 2022 (miliynau) | Cyfran o deithiau 2022 |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 125.7 | |
| Lloegr | 106.9 | 85% |
| Yr Alban | 13.5 | 11% |
| Cymru | 8.7 | 7% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Teithiau dros nos domestig fesul chwarter yn 2022

Ar y cyfan, cafwyd y nifer uchaf o deithiau domestig i bob gwlad yn Ch3 2021, wrth i gyfyngiadau symud COVID-19 ddod i ben ond pan roedd teithio dramor dal wedi'i gyfyngu i raddau. Wrth i ddefnyddwyr ddychwelyd i ddinasoedd a threfi mawr yn ystod Ch4 2022, cynyddodd teithiau dros nos ar draws pob gwlad, o'i gymharu â Ch4 yn 2021.


**Cyfanswm y teithiau (miliynau) fesul chwarter**




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Cyfanswm gwariant teithiau fesul chwarter 2021-2022

Cafwyd y gwariant mwyaf erioed ar deithiau domestig i Brydain yn ystod haf (Ch3) 2022 (ers dechrau'r ystadegau Newydd ym mis Ebrill 2021). Cafwyd mân gynnydd i wariant yn yr Alban yn Ch4 2022 oherwydd cynnydd i deithiau busnes a gwariant ar ddigwyddiadau personol a dathliadau.





| Gwlad | Cyfanswm gwariant 2022 (miliynau) | Cyfran o wariant 2022 |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | £32,882 | |
| Lloegr | £27,554 | 84% |
| Yr Alban | £3,410 | 10% |
| Cymru | £1,919 | 6% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Nosweithiau a dreuliwyd ar daith fesul chwarter 2021-2022

Wrth gymharu â chwarteri cyfatebol yn 2021, ceir tueddiad cyffredinol am i lawr ar gyfer nosweithiau a dreuliwyd ar deithiau domestig i bob gwlad yn 2022. Mae hyn yn adlewyrchu newid i deithiau byrrach i weld ffrindiau a theulu a theithiau busnes byrrach. Gallai'r newidiadau hyn fod mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Dynododd tracwyr sentiment a gomisiynwyd gan VisitBritain drwy gydol 2022 y byddai tua 15% o ymatebwyr yn lleihau nifer y nosweithiau a dreuliwyd ar daith mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

**Cyfanswm nosweithiau (miliynau)**





| Gwlad | Cyfanswm nosweithiau 2022 (miliynau) | Cyfran o nosweithiau 2022 |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 383.3 | |
| Lloegr | 316.2 | 82% |
| Yr Alban | 40.9 | 11% |
| Cymru | 26.1 | 7% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Gwlad breswylio yn ôl gwlad gyrchfan yn 2022


Cymru sydd â'r twristiaeth traws-genedl fwyaf ac mae mwyafrif y teithiau yn dod o Loegr. Mae twristiaeth i'r Alban wedi rhannu bron yn gyfartal rhwng trigolion yr Alban a'r rhai nad ydynt yn drigolion, ac roedd llai nag 1 o bob 10 o deithiau i Loegr o wledydd eraill Prydain. Er na fu unrhyw newid mawr i deithio rhwng y gwledydd ers 2021, mae'n bwysig nodi bod teithiau i wledydd eraill yn dueddol o fod â gwariant cyfartalog uwch na theithiau yn y wlad gartref.




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Gwariant cyfartalog fesul taith 2021-2022

Cynyddodd gwariant cyfartalog fesul taith yn gyffredinol yn 2022, yn unol â’r costau byw cynyddol. Cyrhaeddodd y gyfradd chwyddiant flynyddol ei huchaf ers 41 mlynedd, sef 11.1%, ym mis Hydref 2022. Wrth gymharu chwarteri cyfatebol, mae gwariant cyfartalog Ch4 2022 yn Lloegr 21% yn uwch na Ch4 2021.





| Gwlad | Gwariant cyfartalog fesul taith 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Gwariant cyfartalog fesul taith 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | £230 | £268 |
| Lloegr | £224 | £264 |
| Yr Alban | £225 | £264 |
| Cymru | £198 | £237 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Gwariant cyfartalog fesul noson 2021-2022

Wrth i nifer y teithiau fesul taith leihau a gwariant cyffredinol gynyddu, cynyddodd y gwariant cyfartalog fesul noson trwy gydol 2022 hefyd. Mae brig yr Alban yn Ch2 2022 i raddau helaeth oherwydd gwariant arbennig o uchel o £102 y noson ym mis Ebrill yn ystod gwyliau’r Pasg.

**Gwariant cyfartalog fesul Nnoson**





| Gwlad | Gwariant cyfartalog fesul noson 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Gwariant cyfartalog fesul noson 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | £66 | £87 |
| Lloegr | £67 | £88 |
| Yr Alban | £66 | £87 |
| Cymru | £54 | £76 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Nosweithiau cyfartalog fesul taith 2021-2022

Gostyngodd nosweithiau cyfartalog fesul taith ar draws bob gwlad yn 2022, â gostyngiadau o un chwarter i'r nesaf i bob gwlad. Wrth gymharu 2021 (Ebrill i Ragfyr) a 2022 (Ebrill i Ragfyr), ceir gostyngiad o 11% i'r nosweithiau cyfartalog a dreuliwyd ar daith. Gallai hyn fod mewn ymateb i chwyddiant cynyddol yn ystod 2022, a gwellhad teithio rhyngwladol allan, lle'r oedd trigolion Prydain Fawr yn mynd ar deithiau domestig byrrach er mwyn mynd ar fwy o deithiau dramor.

**Gwariant cyfartalog fesul Noson**




| Gwlad | Nosweithiau cyfartalog fesul taith 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Nosweithiau cyfartalog fesul taith 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 3.5 | 3.1 |
| Lloegr | 3.4 | 3.0 |
| Yr Alban | 3.4 | 3.0 |
| Cymru | 3.7 | 3.1 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

BMG success decoded


# Teithiau Cymru

## Teithiau Dros Nos Domestig i Gymru 2021-2022




# Crynodeb o deithiau dros nos i Gymru yn 2022


## Teithiau 2022 i Gymru (miliynau)





## Hyd cyfartalog teithiau yn 2022 (mewn diwrnodau)




## Gwariant cyfartalog yn ôl diben y daith




## Gwariant 2022 yng Nghymru (miliynau)




* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Mae rhai meintiau sylfaen yn isel ar y lefel dri misol yn unig.


Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022

Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded

# Diben taith dros nos fesul chwarter

Teithiau gwyliau ac ymweld â ffrindiau a theulu yw'r rhesymau mwyaf cyffredin o hyd am fynd ar daith dros nos i Gymru yn 2022. Cynyddodd cyfran y teithiau amrywiol i Gymru 4 bwynt canran yn 2022, wrth i fwy o bobl deithio'n rhyngwladol (mae teithiau amrywiol yn cynnwys teithiau domestig yn rhan o daith dramor). Yn yr un modd â'r Alban, roedd brig yr haf ar gyfer teithiau gwyliau i Gymru yn sylweddol is nag yn 2021.




| Diben | Nifer y Teithiau 2022 (miliynau) | Cyfran o Deithiau |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | 8.71 | |
| Teithiau Gwyliau | 3.84 | 44% |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 2.66 | 31% |
| Teithiau Busnes* | 0.52 | 6% |
| Teithiau Amrywiol | 1.69 | 19% |


* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Eithriwyd teithiau busnes tri misol gan fod meintiau sylfaen o dan 30.

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022

Sylfaen: Cymru 993

# Gwariant cyfartalog fesul diben taith

Bu cynnydd i wariant cyfartalog fesul taith pob math o daith yn 2022. Cynyddodd gwariant cyfartalog ar ymweld â ffrindiau a theulu 40% rhwng 2021 (Ebrill i Ragfyr) a 2022 (Ebrill i Ragfyr), gwelir y tueddiad hwn ar draws Prydain Fawr a gallai fod oherwydd chwyddiant neu'n gysylltiedig â'r cynnydd i'r mathau hyn o daith sy'n digwydd mewn dinasoedd a threfi mawr (sy'n lleoliadau gwariant uwch).




| Diben | Gwariant Cyfartalog 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Gwariant Cyfartalog 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | £198 | £237 |
| Teithiau Gwyliau | £244 | £285 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | £112 | £157 |
| Teithiau Busnes* | £174 | £213 |
| Teithiau Amrywiol | £215 | £241 |


* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Eithriwyd teithiau busnes tri misol gan fod meintiau sylfaen o dan 30.

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022

Sylfaen: Cymru 993

# Hyd taith


Fe wnaeth mwyafrif y teithiau i Gymru yn 2022 bara 3 noson neu lai. Fe wnaeth hyd teithiau dros nos leihau ar draws pob gwlad yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Mewn cyferbyniad â gwledydd eraill, cafodd teithiau gwyliau i Gymru eu heffeithio gan y tueddiad hwn tuag at deithiau byrrach hefyd, â gostyngiad o 9 pwynt canran ar gyfer teithiau gwyliau yn parhau 4 noson neu fwy.




* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Ni ddangosir 3% neu lai
Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Hyd cyfartalog taith fesul chwarter

Ar y cyfan, gostyngiad hyd cyfartalog teithiau at bob diben yng Nghymru yn 2022. Effeithiwyd ar ymweld â ffrindiau a theulu a theithiau busnes fwyaf gan y newid hwn. Er bod teithiau gwyliau yn fyrrach, ar gyfer 2022, ni effeithiwyd ar gyfnod yr haf wrth i'r hyd cyfartalog aros yn sefydlog ar 4.5 diwrnod fesul taith, o'i gymharu â Ch3 2021.





| Diben y Daith 2022 | Hyd Cyfartalog 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Hyd Cyfartalog 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | 3.7 | 3.1 |
| Teithiau Gwyliau | 4.2 | 3.9 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 3.3 | 2.3 |
| Teithiau Busnes* | 2.8 | 2.0 |
| Teithiau Amrywiol | 2.9 | 2.9 |

*Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig.
Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded

# Math o leoliad y prif le a ymwelwyd dros nos

Roedd teithiau i Gymru bron yr un mor boblogaidd ar gyfer pob math o leoliad (e.e. dinas fawr a chefn gwlad). Arhosodd teithiau i bob math o leoliad yn sefydlog i raddau helaeth rhwng 2021 a 2022, ond daeth dinasoedd a threfi mwy yn fwy poblogaidd ar gyfer teithiau i weld ffrindiau a pherthnasau (+8 pwynt canran) a daeth teithiau i gefn gwlad/pentref yn fwy cyffredin ar gyfer gwyliau (+8 pwynt canran), sy'n esbonio'r brig yn Ch3 2022.





| Math o Leoliad | Teithiau 2022 (miliynau) | Cyfran o Deithiau |
|---|---|---|
| Glan môr neu arfordirol arall | 1.7 | 20% |
| Dinas fawr/ tref fawr | 2.4 | 28% |
| Tref fach | 2.1 | 24% |
| Cefn gwlad/ pentref | 2.2 | 25% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Gwariant fesul math o leoliad y prif le a ymwelwyd 2022

Cynyddodd gwariant mewn dinasoedd a threfi mawr yn gyflym yn 2022 a dyma'r gyfran fwyaf o wariant ar draws pob math o leoliad. Bu gostyngiad sylweddol i gyfran o wariant mewn lleoliadau glan môr/arfordirol (-9 pwynt canran) yn 2022 (Ebrill i Ragfyr 2022) o'i chymharu â 2021.





| Math o Leoliad | Gwariant 2022 (miliynau) | Cyfran o Wariant |
|---|---|---|
| Glan môr neu arfordirol arall | £346 | 18% |
| Dinas fawr/ tref fawr | £633 | 33% |
| Tref fach | £462 | 24% |
| Cefn gwlad/ pentref | £426 | 22% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Teithiau a gwariant fesul gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt 2022

Roedd teithiau a oedd yn cynnwys ymweld a gweithgareddau hamdden awyr agored fwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2022. Nid oedd unrhyw newid sylweddol i gyfran y gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt ar deithiau rhwng 2021 a 2022, ond roedd gostyngiad sylweddol i wariant taith pan mai atyniadau ymwelwyr oedd y prif weithgaredd (-11 pwynt canran), hamdden awyr agored (-9 pwynt canran) a bwyd, diod a siopa arbenigol (-9 pwynt canran).

**Cyfran o'r teithiau a'r gwariant fesul gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt 2022**




*Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig.

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022


Sylfaen: Cymru 993

SYLWER: Mae'r sleid yn dangos cyfran y teithiau a'r gwariant a oedd yn cynnwys pob gweithgaredd, mae'n dod i gyfanswm o fwy na 100% gan y gellid cymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd ar daith.

BMG success decoded

# Gwariant teithiau fesul gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt yn 2022

Ac eithrio gweithgareddau â meintiau sylfaen bach, teithiau a oedd yn cynnwys cymryd rhan mewn hobïau a diddordebau oedd â'r teithiau gwariant cyfartalog uchaf (fesul taith) i Gymru yn 2022, a'r rhain hefyd oedd rhai o'r ychydig deithiau lle cynyddol gwariant ers 2021. Mewn cyferbyniad ag ymweliadau dydd â Chymru, teithiau dros nos a oedd yn cynnwys bwyd, diod, nosweithiau allan neu siopa arbenigol oedd â'r gwariant cyfartalog isaf yn 2022.




*Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig.
Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded

# Dadansoddiad gwariant teithiau 2022

Er bod gwariant teithiau yng Nghymru wedi cynyddu 35% yn gyffredinol yn 2022 (Ebrill i Ragfyr) o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr), prin oedd y newid i'r gyfran o wariant ar bob categori. Mae'r rhan fwyaf o wariant taith yn dal i fod ar lety, gwyliau parod a bwyta ac yfed allan.


**Manylion Gwariant Teithiau 2022**




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Gwariant teithiau fesul chwarter 2021-2022

Cynyddodd gwariant ar draws pob prif gategori yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o'i chymharu â 2021. Gallai gwyliau parod (+48%), bwyta ac yfed allan (+43%), llety (+34%) a chostau teithio (+23%) i gyd fod wedi cael eu heffeithio gan chwyddiant. Er enghraifft, 11.4% oedd y mynegai prisiau defnyddwyr blynyddol ar gyfer gwestai yn 2022, a 6.9% ar gyfer trafnidiaeth. Roedd gwariant ar wyliau parod uchaf yn Ch4 2022, gan gynrychioli 45% o wariant ar wyliau parod yn 2022.




* Eithriwyd categorïau gwariant â maint sylfaen blynyddol o lai na 100.
Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Teithiau a gwariant fesul rhanbarth preswyl 2022

Trigolion Lloegr sy'n mynd ar y mwyafrif llethol o deithiau i Gymru, ac maent yn aros yn hirach na thrigolion Cymru ac yn gwario mwy. Gan ganolbwyntio ar drigolion Cymru, trigolion De-ddwyrain Cymru sy'n mynd ar y mwyaf o deithiau, gan gynrychioli 13% o deithiau ond dim ond 9% o wariant. Er bod trigolion De-orllewin Cymru yn cynrychioli cyfran lai o deithiau, mae eu gwariant cyfartalog fesul taith yn £210, o'i gymharu â £160 gan drigolion De-ddwyrain Cymru.

| Cyfanswm y teithiau 2022 | Teithiau (miliynau) | Nosweithiau (miliynau) | Gwariant (miliynau) |
|---|---|---|---|
| **Net: Lloegr** | 6.22 | 19.68 | £1,456 |
| Llundain* | 1.15 | 3.56 | £335 |
| Gweddill Lloegr (nid Llundain) | 5.07 | 16.12 | £1,121 |
| **Net: Yr Alban*** | 0.28 | 0.81 | £83 |
| **Net: Cymru** | 2.21 | 5.61 | £380 |
| Canolbarth Cymru* | 0.14 | 0.36 | £26 |
| Gogledd Cymru* | 0.42 | 1.21 | £62 |
| De-ddwyrain Cymru | 1.09 | 2.64 | £174 |
| De-orllewin Cymru | 0.54 | 1.39 | £113 |

| Teithiau Gwyliau 2022 | Teithiau (miliynau) | Nosweithiau (miliynau) | Gwariant (miliynau) |
|---|---|---|---|
| **Net: Lloegr** | 2.72 | 10.38 | £748 |
| Gweddill Lloegr (nid Llundain) | 2.44 | 9.32 | £642 |
| **Net: Cymru** | 1.00 | 3.29 | £233 |
| Gogledd Cymru* | 0.20 | 0.67 | £34 |
| De-ddwyrain Cymru* | 0.45 | 1.42 | £100 |
| De-orllewin Cymru* | 0.27 | 0.96 | £80 |

* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. Mae gan deithiau gwyliau i Ganolbarth Cymru faint sylfaen sy'n llai na 30 ac felly fe'u heithriwyd.

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Teithiau a gwariant fesul rhanbarth a ymwelwyd 2022

Er mai de-ddwyrain Cymru oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru, roedd ganddi'r gwariant cyfartalog lleiaf hefyd (£194 y daith) a'r hyd cyfartalog byrraf (2.4 noson y daith). Mae Gogledd Cymru yn cynrychioli 3 o bob 10 taith i Gymru ond roedd gan yr ardal y gwariant cyfartalog uchaf (£247 y daith) a'r hyd cyfartalog hiraf (3.8 noson y daith). Ffefrir Gogledd Cymru gan y grŵp oedran 55 a hŷn, sy'n warwyr mwy yng Nghymru. De-ddwyrain Cymru oedd yr unig ranbarth â chynnydd sylweddol i deithiau yn 2022 (+6 pwynt canran).

| Cyfanswm y teithiau 2022 | Teithiau (miliynau) | Nosweithiau (miliynau) | Gwariant (miliynau) |
|---|---|---|---|
| Canolbarth Cymru | 1.14 | 3.02 | £194 |
| Gogledd Cymru | 2.43 | 9.23 | £600 |
| De-ddwyrain Cymru | 2.95 | 7.12 | £573 |
| De-orllewin Cymru | 2.14 | 5.80 | £479 |

| Teithiau Gwyliau 2022 | Teithiau (miliynau) | Nosweithiau (miliynau) | Gwariant (miliynau) |
|---|---|---|---|
| Canolbarth Cymru | 0.55 | 1.72 | £115 |
| Gogledd Cymru | 1.49 | 6.15 | £372 |
| De-ddwyrain Cymru | 0.83 | 2.36 | £243 |
| De-orllewin Cymru | 0.90 | 3.37 | £269 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993


# Proffil teithiau Cymru 2022



# Amser arwain trefnu llety 2022

Trefnwyd teithiau gwyliau i Gymru yn 2022 ymhell ymlaen llaw, a threfnwyd o leiaf hanner ddau fis neu fwy cyn y daith. Mae hyn yn gynnydd o 13 pwynt canran o 2021. Wrth edrych ar bob math o daith i Gymru yn 2022, roedd trefnu dau fis neu fwy ymlaen llaw fwyaf tebygol yn Ch4. Gallai hyn fod oherwydd y cynnydd i wyliau parod yn ystod y cyfnod hwn.

## Amser Arwain Trefnu 2022





Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Dull trefnu 2022

Gwefannau teithio, darparwyr llety a gweithredwyr teithiau oedd y ffyrdd mwyaf cyffredin o drefnu gwyliau i Gymru yn 2022. Prin oedd y newid i ddulliau trefnu rhwng Ebrill i Ragfyr 2021 ac Ebrill i Ragfyr 2022, sy'n cyd-fynd â thueddiadau ar draws Prydain Fawr.

**Dull Trefnu 2022**





| | | |
|---|---|---|
| **Heb drefnu/ amherthnasol** | **32%** | **13%** |
| Arall/Ddim yn gwybod | 11% | 16% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded

# Trafinidiaeth a ddefnyddiwyd 2022

Cerbydau modur preifat oedd y prif ddull teithio a ddefnyddiwyd ar deithiau dros nos i Gymru, ac roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer teithiau gwyliau. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i drafnidiaeth a ddefnyddiwyd rhwng 2021 a 2022.





Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Llety a ddefnyddiwyd ar deithiau dros nos yn 2022

Aros mewn gwesty oedd y math mwyaf cyffredin o lety a ddefnyddiwyd ar deithiau dros nos yng Nghymru, wedi'i ddilyn gan garafán/gwersylla/glampio, sy'n llawer mwy poblogaidd yng Nghymru na gwledydd eraill. Mae'r math o lety a ddefnyddir yn amrywio yn ôl diben y daith, ac arhosodd 4 o bob 10 o deithiau gwyliau mewn carafán/gwersylla/glampio yn 2022. Penderfynir ar ddewis llety ar sail cyfnod oes hefyd, ac mae gan gyn-nythwyr ffafriaeth gryfach at lety â gwasanaeth (50%).

## Llety a Ddefnyddiwyd yng Nghymru 2022




| Gwariant Cyfartalog |
|---|
| £277 |
| £302 |
| £187 |
| £98 |
| £222 |


Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded


# Cyfnod oes a phroffil oed ar gyfer teithiau domestig 2022

Teithiau gan y rhai yn y cyfnod oes teuluol yw'r gyfran fwyaf o deithiau i Gymru, ond y teithiau hyn sydd â'r gwariant cyfartalog isaf a'r hyd byrraf. Teithiau gan bobl annibynnol hŷn, ar y llaw arall, sydd â'r gwariant cyfartalog uchaf a'r hyd mwyaf (cyfartaledd o 3.5 diwrnod yn erbyn 3 yn gyffredinol). Mae un o bob pum taith wedi'i chyfansoddi o bobl 16-24 mlwydd oed, ac mae'r teithiau hyn yn dueddol o edrych yn wahanol iawn i rai grwpiau eraill, er enghraifft, aeth cyfran uwch ar wyliau parod (34% yn erbyn 18% yn gyffredinol).

## CYFNOD OES




## OEDRAN





Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded


# Maint parti teithiau 2022

Roedd 6 o bob 10 o bartïon teithiau wedi'u cyfansoddi o 2 o bobl neu lai. Cafwyd gostyngiad i faint cyfartalog parti taith a mân ostyngiad i gyfran y partïon mwy o 5 o bobl neu fwy. O gymharu Ebrill i Ragfyr 2021 ag Ebrill i Ragfyr 2022, roedd cynnydd o 4 pwynt canran i gyfran y teithiau a gyflawnwyd gan deithwyr ar eu pen eu hunain. Cyn-nythwyr sydd fwyaf tebygol o fynd ar deithiau ar eu pen eu hunain (30% o'i gymharu â 22% yn gyffredinol).

## Maint Parti




## Plant (iau nag 16 oed) ym Mharti'r Daith





Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993


# Cyfansoddiad partïon teithiau 2022

Roedd 1 o bob 5 taith i Gymru yn rhan o grŵp mwy yn 2022, a dathliadau oedd y math o grŵp mawr mwyaf poblogaidd. Roedd gan deithiau â grwpiau mwy wariant cyfartalog rhyw fymryn yn is ac roeddent yn llai o ran hyd na'r rhai nad oeddent yn rhan o grŵp mwy

## Rhan o Barti Mawr




## Math o Barti Mawr




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

# Ymweliadau fesul rhanbarth cartref a rhanbarth ymweld 2022

Mae Gogledd a De-ddwyrain Cymru yr un mor boblogaidd ymhlith trigolion Lloegr, ond mae hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth. Roedd yn well gan drigolion Llundain y De-ddwyrain, o'u cymharu â gweddill Lloegr a oedd yn mynd ar fwy o deithiau i Ogledd Cymru. Aeth trigolion Cymru ar fwy o deithiau yn eu rhanbarthau eu hunain, ac eithrio trigolion Canolbarth Cymru yr oedd yn well ganddynt y De-orllewin.

| RHANBARTH A YMWELWYD | HOME REGION | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Net Lloegr | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Llundain | Gogledd-orllewin Lloegr | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr | Swydd Efrog a Humber | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Gweddill Lloegr (Nid Llundain) | Net yr Alban | Net Cymru | Canolbarth Cymru | Gogledd Cymru | De-ddwyrain Cymru | De-orllewin Cymru |
| Maint sylfaen rhanbarth cartref | 451 | 34 | 67 | 95 | 46 | 49 | 32 | 105 | 384 | 43 | 499 | 33 | 93 | 249 | 120 |
| Canolbarth Cymru | 13% | 9% | 12% | 6% | 30% | 4% | 18% | 19% | 14% | 11% | 12% | 20% | 7% | 10% | 19% |
| Gogledd Cymru | 32% | 28% | 16% | 66% | 17% | 11% | 23% | 35% | 36% | 27% | 17% | 14% | 69% | 4% | 2% |
| De-ddwyrain Cymru | 32% | 31% | 50% | 12% | 35% | 61% | 37% | 22% | 28% | 37% | 38% | 22% | 21% | 48% | 34% |
| De-orllewin Cymru | 22% | 43% | 22% | 14% | 22% | 27% | 16% | 23% | 22% | 21% | 33% | 46% | 3% | 37% | 45% |


*Sylwer bod y tabl uchod yn seiliedig ar deithiau i Gymru, felly mae'r canrannau yn eithrio teithio i Loegr a'r Alban. Eithriwyd rhanbarthau cartref â maint sylfaen o lai na 30. Ar gyfer meintiau sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir y dylid defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig.
Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Cymru 993

BMG success decoded

# ATODIAD



# Diben taith fesul chwarter ym Mhrydain Fawr





| Diben 2022 | Nifer y Teithiau 2022 | Cyfran o Deithiau |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | 125.7 | |
| Teithiau Gwyliau | 43.0 | 34% |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 44.7 | 36% |
| Business Teithiau | 7.2 | 6% |
| Teithiau Amrywiol | 30.8 | 25% |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

BMG success decoded


# Gwariant cyfartalog fesul diben y daith ym Mhrydain Fawr




| Diben y Daith | Gwariant Cyfartalog Prydain Fawr 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Gwariant Cyfartalog Prydain Fawr 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | £230 | £268 |
| Teithiau Gwyliau | £299 | £333 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | £148 | £174 |
| Teithiau Busnes | £278 | £331 |
| Teithiau Amrywiol | £237 | £294 |


Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Hyd teithiau ym Mhrydain Fawr 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993

# Hyd cyfartalog taith fesul chwarter ym Mhrydain Fawr




| Diben 2022 | Hyd Cyfartalog 2021 | Hyd Cyfartalog 2022 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Teithiau | 3.5 | 3.1 |
| Teithiau Gwyliau | 3.9 | 3.9 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 3.3 | 2.8 |
| Teithiau Busnes | 5.2 | 2.7 |
| Teithiau Amrywiol | 2.7 | 2.5 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,161; Lloegr 7,885; Yr Alban 1,537; Cymru 993